**Trydydd cyfarfod ar ddeg Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
**Ffocws: Partneriaeth Tirlun Llŷn a Chynllun Rheoli AHNE Llŷn**
**20 Tachwedd 2014, Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog, Gwynedd**

**Yn bresennol:**
Matthew Quinn (Cadeirydd)
[1]Arwel Jones, Partneriaeth Tirlun Llŷn
[2]Bleddyn Prys Jones, AHNE Llŷn
Stephen Bladwell, RSPB (Cyd-gadeirydd y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau)
Julia Korn, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynrychiolydd Grŵp Ecosystemau'r Ucheldir)
Helen Buckingham, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Cyd-gadeirydd Grŵp Ecosystemau Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir)
Jim Latham, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Coetir)
Pete Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Gwlyptir)
Clare Burrows, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Tir Fferm Amgaeëdig)
Mike Howe, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystemau Arfordirol)
Tracey Lovering, Cyfoeth Naturiol Cymru/Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (Cydlynydd Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru/Arweinydd Prosiect Bylchau mewn Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru)
Kathleen Carroll, Llywodraeth Cymru (Cynrychiolydd y Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol)

**Ymddiheuriadau:**

Gill Bell, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Morol)
Tristan Hatton-Ellis, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw)
Pete Frost (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dinesig)

**TRYDYDD CYFARFOD AR DDEG CADEIRYDDION GRWPIAU PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU – CAMAU GWEITHREDU DRAFFT**

| Rhif | Cam gweithredu | Pwy | Erbyn diwedd |
|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu newydd 20 Tachwedd 2014** | | | |
| 1. | TL i ddosbarthu adroddiad a chrynodeb Craggatak ynghylch cynlluniau rheoli sy'n seiliedig ar **Ddull Rheoli ar lefel yr Ecosystem**. | **TL** | **Ionawr 2015** |
| 2. 1 | TL i ailanfon y ddolen gyswllt ar gyfer fforwm Grŵp **Prosiect Bylchau mewn Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**: https://www.linkedin.com/groups?home=&gid=8130371&trk=anet_ug_hm | **TL** | **Wedi'i gwblhau** |

[1] ArwelJones@gwynedd.gov.uk
[2] BleddynPrysJones@gwynedd.gov.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2<br><br><br><br><br><br><br><br>2.3<br><br><br><br><br><br>2.4 | Cadeiryddion i anfon y ddolen gyswllt uchod at aelodau eu Grwpiau ac annog pawb i ymuno; cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch bylchau, a defnyddio'r fforwm yn weithredol er mwyn cael pawb i gyfrannu at ddata / tystiolaeth neu ddarparu data / tystiolaeth i helpu i lenwi'r bylchau mewn tystiolaeth sydd gan Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.<br><br>Cadeiryddion i nodi'r cynrychiolwyr Grwpiau unigol a fydd yn brif unigolion cyswllt ar gyfer y gwaith y mae eu Grwpiau'n ei wneud ar fylchau mewn tystiolaeth. Cadeiryddion i anfon manylion cyswllt yr arweinwyr hynny at TL a fydd yn rhoi cymorth iddynt.<br><br>JK i anfon rhestr o brosiectau casglu tystiolaeth y Gronfa Ecosystemau Gwydn at TL. | **Pob Cadeirydd**<br><br><br><br><br><br><br><br>**Pob Cadeirydd**<br><br><br><br><br><br>**JK** | **Ionawr 2015**<br><br><br><br><br><br><br><br>**Ionawr 2015**<br><br><br><br><br><br>**Ionawr 2015** |
| 3.1<br><br><br><br><br>3.2 | Bydd **cyfarfod nesaf Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** yn canolbwyntio ar y **Cynllun Adfer Natur** y bwriedir ei gyflwyno ym mis Chwefror 2014.<br><br>Cadeiryddion i ddarparu, cyn y cyfarfod uchod, restr o setiau data, adnoddau a mapiau a ddefnyddir gan eu Grŵp, a gan y sefydliadau a gynrychiolir yn eu Grŵp, sy'n llywio gwaith blaenoriaethu camau gweithredu o ran bioamrywiaeth ar gyfer yr ecosystem/rhywogaethau sy'n berthnasol iddyn nhw. | **TL**<br><br><br><br><br>**Pob Cadeirydd** | **Ionawr 2015**<br><br><br><br><br>**Cyn cyfarfod Chwefror 2015** |
| 4.1<br><br><br><br><br><br><br><br>4.2 | Gofynnodd AJ i Lywodraeth Cymru fynnu bod partneriaid sy'n ymwneud â chyflawni gwaith ar draws yr **Ardaloedd Gweithredu Byd Natur** ac **ardaloedd treialu Cyfoeth Naturiol Cymru** yn crynhoi eu profiadau dysgu unigol ac yn adrodd yn eu cylch, er mwyn sicrhau bod dysgu trawsffiniol yn digwydd. Cynigiwyd y dylid cynnal digwyddiad dysgu i bartneriaid.<br><br>Llywodraeth Cymru i ddarparu digwyddiad dysgu i'r sawl sy'n ymwneud â chyflawni gwaith ar draws yr Ardaloedd Gweithredu Byd Natur ac ardaloedd treialu Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff gwahoddiadau eu hestyn hefyd i bobl eraill sydd â diddordeb yn y dulliau a ddefnyddir. Gallai'r digwyddiad fod yn debyg i'r seminar Gweundir Llŷn a gynhaliwyd, a oedd yn llwyddiannus. | **MQ**<br><br><br><br><br><br><br><br>**MQ** | **Cyn cyfarfod Chwefror 2015**<br><br><br><br><br><br><br><br>**Gwanwyn 2015?** |
| 5. | Gofynnodd SB i bawb gwblhau'r **arolwg 'Response for Nature' ar-lein**, ar sail maes eu harbenigedd. Bydd ebost gan SB yn dilyn, a fydd yn cynnwys dolen gyswllt ar gyfer yr arolwg. | **Pawb** | **Erbyn y dyddiad cau** |
| 6. | Cadeiryddion/Ysgrifenyddiaeth y Grwpiau i anfon y wybodaeth ddiweddaraf am **Agendâu/Camau Gweithredu Cyfarfodydd y Grwpiau** at SMcH[3] er mwyn | **Pob Cadeirydd/ Ysgrifenyddiaeth** | **Cyn cyfarfod y Cadeiryddion ym mis** |

[3] seanmchugh@wtwales.org

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhoi'r wybodaeth ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar ôl pob cyfarfod Grŵp. | | **Chwefror 2015** |
| 7. | Cadeiryddion i anfon eu newyddion diweddaraf am Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru at Tracey, er mwyn i'r wybodaeth gael ei rhoi ar dudalen y Cadeiryddion ar wefan y Bartneriaeth, ac er gwybodaeth i Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru. | **Pob Cadeirydd** | **Ionawr 2015** |
| 8. | PJ, BPJ a TL i gwrdd i drafod a chynghori ynghylch opsiynau sy'n ymwneud â chamau gweithredu o ran bioamrywiaeth ar gyfer gwlyptir, ar gyfer cynllun diwygiedig i'r AHNE. | **PJ** | **Chwefror 2015** |
| **EITEMAU SEFYDLOG** ***D.S. Dylid mynd i'r afael â'r camau gweithredu uchod ac isod ar gyfer Cadeiryddion/Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mhob un o gyfarfodydd Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru neu rhyngddynt. Os ydynt yn sefyll ar eu pen eu hunain, dylent fod yn eitemau ar yr agenda.*** | | | |
| 1.1 | Pob Cadeirydd i anfon syniadau ynglŷn â chynnwys a lleoliad **gweithdai arfaethedig Prosiect Bylchau mewn Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** –<br><br>1. Morol/Arfordirol/Rhywogaethau Estron Goresgynnol; 2. Ucheldir/Glaswelltir a Gweundir/Coetir/Rhywogaethau Estron Goresgynnol a Rhywogaethau; 3. Dinesig a Thir Llwyd/Tir Fferm Amgaeëdig/Rhywogaethau Estron Goresgynnol | **Cadeiryddion yr holl Grwpiau** | **Cyn cyfarfod y Cadeiryddion ym mis Chwefror 2015** |
| 1.2 | Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, yn eu cyfarfodydd Grŵp, i ystyried sylwadau/cysylltiadau/gwybodaeth a ddarparwyd gan dîm y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg a Mike Bruford, yn erbyn pob un o fylchau mewn tystiolaeth y Grŵp. Y Grwpiau i fynd ar drywydd unrhyw awgrymiadau/cysylltiadau a ddarparwyd a diwygio'r bylchau mewn tystiolaeth a'r wybodaeth gysylltiedig os yw hynny'n briodol. (Gweler colofnau I.J.K yn y *Gofrestr Bylchau mewn Tystiolaeth*, Fersiwn 2, Tachwedd. Noder yr hen fersiwn o'r Gofrestr. Mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael ar y wefan.) Efallai y bydd angen:<br><br>• cynnal trafodaethau newydd ynglŷn â bylchau penodol lle ceir cysylltiadau newydd defnyddiol ag ymchwilwyr/adrannau;<br>• ailysgrifennu'r cwestiwn yng ngoleuni'r dystiolaeth/papurau presennol y mae Mike wedi cyfeirio arweinwyr y bylchau atynt;<br>• ailysgrifennu'r cwestiwn fel y bo angen (os yw'n addas i ymchwil) gan ddilyn y canllawiau ynghylch llunio cwestiynau ymchwil sydd ar dudalen y Prosiect uchod ar y we;<br>• rhannu bwlch mawr yn is-gwestiynau a allai fod yn addas i brosiectau cysylltiedig ar wahân. | **Cadeiryddion yr holl Grwpiau** | **Yng nghyfarfod nesaf eich Grŵp yn 2015. Adroddwch yn ôl i TL pan fydd hyn wedi'i gwblhau** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.3<br><br><br><br><br>1.4 | Gweithio gyda'ch Grŵp i nodi'r bylchau mewn tystiolaeth sy'n flaenoriaeth, a lliwio'r rhain yn briodol yn y Gofrestr Bylchau mewn Tystiolaeth (coch=uchel, oren=canolig, melyn=isel).<br><br>Cytuno ar eich arweinydd ar gyfer pob bwlch mewn tystiolaeth sy'n flaenoriaeth; yr arweinydd i ddatblygu Cynnig cyflawn ynghylch Prosiect Ymchwil (os yw ymchwil yn addas i lenwi'r bwlch) ar gyfer pob prosiect ymchwil, a chyflwyno'r cynnig i TL[2]. | **Cadeiryddion yr holl Grwpiau**<br><br><br><br>**Cadeiryddion yr holl Grwpiau** | **Adolygu ym mhob cyfarfod Grŵp**<br><br><br>**Yng nghyfarfod nesaf y Grŵp yn 2015 – eitem sefydlog ar yr agenda ynghylch y Prosiect Bylchau mewn Tystiolaeth** |
| 2. | Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gefnogi'r agwedd dechnegol ar dri o brosiectau peilot Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys prosiect Dyfi. Cysylltu â: Patrick Green. | **Pob Grŵp / Cadeirydd** | **Parhaus, fel y bo angen** |
| 3. | Cadeiryddion/Ysgrifenyddiaeth y Grwpiau i anfon y wybodaeth ddiweddaraf am aelodaeth y grwpiau at MP[4]. | **Pob Cadeirydd / Ysgrifenyddiaeth** | **Yn dilyn pob cyfarfod Grŵp** |
| 4. | Gan ddefnyddio'r Adnodd Cynllunio Gweithdai Mapio â Blaenoriaeth, Cadeiryddion i sicrhau bod eu Grwpiau yn ychwanegu gweithdai sydd i'w cynnal a chamau gweithredu o weithdai blaenorol (dylid eu hanfon at Sean McHugh i'w cynnwys ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru). Stephen Bladwell a Sean McHugh i rannu'r Adnodd Cynllunio â'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau er mwyn hwyluso presenoldeb cynrychiolwyr y Grŵp yn y digwyddiadau hyn. | **Pob Cadeirydd / Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**SB/SMcH** | **Trefnu digwyddiadau allgyrraedd lleol pob Grŵp yn ystod cyfarfod nesaf y Grŵp yn 2015 fel eitem ar yr agenda** |
| 6. | Pob Grŵp Ecosystemau i edrych unwaith eto ar y Mapiau Ardaloedd Gweithredu â Blaenoriaeth a data cysylltiedig. Cadeiryddion neu arweinyddion dirprwyedig i gasglu unrhyw newidiadau a rhoi mapiau GIS diwygiedig terfynol a chamau gweithredu cysylltiedig i Jan Sherry. | **Pob Cadeirydd** | **Ailystyried y mater yng nghyfarfod nesaf y Grŵp yn 2015 fel eitem ar yr agenda** |
| 7. | Pob Cadeirydd i sicrhau bod tudalennau ei Grŵp ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[5] yn cael eu diweddaru a'u bod yn cynnwys rhestr o aelodau'r Grŵp, agendâu cyfarfodydd, camau gweithredu, rhaglenni gwaith, prosiectau gan gynnwys prosiectau a ariennir gan y Gronfa Ecosystemau Gwydn, mapiau blaenoriaethau, manylion cyswllt a dolenni defnyddiol. Anfon y diweddariadau i dudalennau at Sean McHugh[6]. | **Pob Cadeirydd / Ysgrifenyddiaeth** | **Yn dilyn pob cyfarfod Grŵp** |
| 8.1 | Dai i sicrhau bod Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael papurau Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru cyn pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. | **Dai Harris** | **Cyn cyfarfod nesaf Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth** |

[4] Maureen.Pritchard@Wales.GSI.Gov.UK
[5] www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Ecosystems--Species-Expert-Groups
[6] smchugh@wtwales.org

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.2<br><br><br><br>8.3 | Grwpiau cynghori Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddarparu sylwadau/cyngor i Caryn le Roux ar ôl cael papurau cyfarfodydd Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru.<br><br>Caryn i sôn am sylwadau/cyngor Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yng nghyfarfod Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru. | **Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**<br><br>**Caryn le Roux** | **Cymru** |
| | **Camau gweithredu a ddygwyd ymlaen o'r cyfarfod ym mis Chwefror 2014** | | |
| (1.) | Matthew i siarad â Graham am berthynas y Grŵp Ecosystemau Morol ag Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. | **MQ** | **Cyn cyfarfod y Cadeiryddion ym mis Chwefror 2015** |
| (4.) | Matthew i drafod â Ceri Davies a all Cyfoeth Naturiol Cymru ailgyflwyno swydd Ecolegydd yr Ucheldir. | **MQ** | **Cyn cyfarfod y Cadeiryddion ym mis Chwefror 2015** |

Tracey Lovering
Cydlynydd Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
15/01/15
Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk